Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 5ed o Fawrth 2026

Presennol oedd Guto Jones, Menai Hughes, Prys Ellis, Dyfan Jones, Einion Edwards, Maria Roberts, Ffuon Williams, Llio Morris (cadeirydd), Kay Murphy a Cyngh Gwennol Ellis.

Croesawyd Kay Murphy atom fel cynghorydd newydd in plith bydd iddi lenwi ffurflen derbyn y swydd fel cynghorydd.

Darllenwyd y cofnodion blaenorol ac fe'u harwyddwyd fel rhai cywir.

Datgan diddordeb

Gohebiaeth

[1] 'Glorious Gravel Cycling Event' er gwybodaeth bod yn cael ei chynnal yn yr ardal ar 25ain o Ebrill.

[1.1] Ceisiadau Fferm wynt Brenig - Rhoddwyd dau gais i mewn ond dim ond un a fuodd yn llwyddiannus sef 'Adnewyddu toiledau' y Gwaith pensarneiol a gweinyddol - derbyniwyd £11,000.00. Ni fuodd y plannu Gwrych yn llwyddiannus y tro hwn oherwydd cynifer o geisiadau a gafwyd. Trafodwyd i geisio am grant o ffynonellau eraill.

[1.2] Ffenestri Ystafell y Plwlyf -cafwyd pris am 3 ffenest pasiwyd i ofyn am bris arall er mwyn cynharu pris pasiwyd gofyn i gwmni Horizon.

[1.3] Cyngor Bwrdeisdrerf Sirol Conwy - derbyniwyd arian grant Canolfan Glyd £660.00 (y tri mis cyntaf).

[1.4] Llew Gwyn - anfonebau cynnal y Canolfan Glyd am Mis Ionawr, Chwefror a Mawrth sef £660.00 pasiwyd iw dalu, Y clerc i hawlio arian grant hwn gan Cyngor Sir Conwy.

[1.5] Plus Net - anfoneb am internet sydd wedi mynd allan o gyfrif banc y clerc felly y Cyngor i dalu'r clerc. Pasiwyd i dalu. Bydd yr anfoneb nesaf yn mynd allan o gyfrif y Cyngor Bro drwy DD

[1.6] Hufenfa De Arfon – anfonwyd llythyr yn cadarnhau bod y Cyngor Bro wedi bod yn llwydiannus i gael grant i gael diffub yn Marc Carafannau yn Mhentrellyncymer. Ni fudd dim cyfrifoldeb ir Cyngor Bro gyda rhedeg yr diffub.

[1.7] Scottish power - anfoneb £26.32 wedi ei dalu DD

[1.8] Bryson Recycle anfoneb am 4 bin ailgylchu gwastraff gwyrdd wedi ei talu am flwyddyn gan y clerc £124.00 pasiwyd i dalu nol ir clerc.

[1.9] Unllais Cymru - tal aeoldaeth £157.00 pasiwyd iw dalu.

[2] Adroddiad Cyngh Gwennol Ellis - Dywedodd bod cyllideb Cyngor Conwy wedi ei gosod a bod Treth Cyngor yn codi 6.09% ir Cyngor Sir a 0.31% Gwasanaeth Tan.

Bydd y Gwaith o wneud llwybr cerdded wrth y Siop Bwyd a ni a orsaf dan yn cael ei gyflawni ai gwbwlhau cyn ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Trafodwyd grantiau sydd ar gael sef Balchder Bro gan sir Gonwy, Cronfa Cymunedol Dwr Cymru a Cronfa Degwm Cyngor Sir Conwy, felly bydd y clerc yn cysylltu a Marc Roberts i edrych os oes posbi cael gwneud cais ir Toiledau ar Gwrych y fynwent.

Unrhyw fater arall

[2.1] Blodau ir potiau - cafwyd anfoneb gan Menai Hughes am blanhigion a defnydd llnau ir Ystafell Plwyf £23.29 pasiwyd iw dalu.

[2.2] Cyfrifydd - Bydd ir clerc gael gair gyda y cyfrifydd gyda tal heirio yr ystafell plwyf am y flwyddyn sydd wedi bod cytunwyd i godi y ffi i £900.00 ar ol gwneud gwelliannau ir ystafell a ofynwyd ganddo,, gyda codi eto os bydd yn penderfynnu aros drwy dydd. Cytunwyd ar hyn. Pasiwyd hefyd gofyn os oedd posib ir cyfrifydd dalu bob chwarter o hyn allan ar swm o £250.00.

[2.3] Parcio tu allan ir Ysgol - mae parcio yn achos o bryder i ddiogelwch plant ac oedolion sydd yn mynychu i dderbyn ei plant or ysgol, pasiwyd i drio cynnal cyfarfod ar y cyd gyda LLywodraethwyr, staff yr ysgol ar Cyngor Sir Cynghorydd Gwennol Ellis yn mynd i wneud trefniadau os oes posib.

Dyddiad y cyfarfod nesaf Nos iau 30ain o Ebrill.